# Matthew Henry 1662–1714

## *Gweinidog Presbyteraidd ac esboniwr Beiblaidd*

O ran genedigaeth Cymro oedd Matthew Henry oherwydd iddo gael ei eni yn Broadoak, Sir y Fflint, ym mhlwyf Malpas ar 18 Hydref 1662. Roedd ei dad Philip Henry yn un o'r gweinidogion a ddiarddelwyd o'r Eglwys o ganlyniad i Ddeddf Unffurfiaeth 1662. Roedd yn blentyn gwantan ond ers dyddiau plentyndod fe'i paratowyd ar gyfer y weinidogaeth. Hyfforddwyd ef gartref gan ei dad a William Turner a oedd yn fyfyriwr i'w dad. Daeth yn hyddysg yn yr ieithoedd clasurol ac yn enwedig mewn Hebraeg. Ym 1680 aeth i astudio yn Academi Thomas Doolittle yn Islington, Llundain. Amharwyd ar ei addysg oherwydd erledigaeth gynyddol tuag at Ymneilltuwyr. Gorfodwyd Doolittle ym 1683 i symud ei Academi i Battersea a dychwelodd Henry adref i Broadoak. Dychwelodd i Lundain ym 1685 i astudio'r gyfraith yn Gray's Inn. Parhaodd hefyd i astudio diwinyddiaeth. Pan oedd gartref ar wyliau ym 1686 dechreuodd bregethu yn aml i gynulleidfaoedd. Pregethodd yn gyfrinachol yng nghartref Anthony Henthorne, pobydd siwgr yng Nghaer. Yn y cyfnod hwnnw nid oedd rhyddid i Anghydffurfwyr wneud fel y mynnent. Oherwydd iddo wneud y fath argraff gofynnwyd a fyddai'n fodlon bod yn weinidog arnynt. Cytunodd Henry ond dychwelodd i Lundain i gwblhau ei astudiaethau. Ar 9 Mai 1687 fe'i hordeiniwyd gan chwech o weinidogion a gafodd eu diarddel ym 1662. Roedd y gynulleidfa yn cyfarfod ar y dechrau mewn hen stablau o eiddo Henthorne yn Whitefriars. Gan fod y gynulleidfa yn cynyddu penderfynwyd adeiladu tŷ cwrdd, ar gost o £532 16s, yn Crook Lane.

Ystyrid Henry yn un o weinidogion mwyaf blaenllaw ei oes a hynny oherwydd ei weinidogaeth efengylaidd fywiog yn y pulpud ac yn y stydi. Roedd ganddo ddawn eithriadol fel pregethwr ac yr oedd yn barod i gyhoeddi'r newyddion da bob amser. Pregethai yn nhref Caer ar y Sul ac yn wythnosol yn y pentrefi cyfagos. Yn flynyddol byddai'n mynd ar daith bregethu i Swydd Stafford a Swydd Caerhirfryn (Lancashire). Er hynny wynebodd lawer iawn o erlid gan y rhai hynny a wrthwynebai Anghydffurfiaeth. Bygythiwyd llosgi eu tŷ cwrdd yn 1692 ac yn gyson

byddai ei gynulleidfa yn cael eu herlid yn chwyrn ac yn gorfod wynebu ymosodiadau geiriol cyson gan uchel eglwyswyr.

Gwaith enwocaf Henry oedd yr *Exposition of the Old and New Testament*. Dechreuodd ar y gwaith hwn ym 1704. Roedd y gyfrol gyntaf yn cynnwys Pumllyfr Moses ac fe'i cyhoeddwyd ym 1707. Cyhoeddwyd tair cyfrol arall ar yr Hen Destament, yr olaf ym 1712. Gweithiodd wedyn ar y Testament Newydd a phan fu farw roedd wedi cyrraedd cyn belled â Llyfr yr Actau. Cwblhawyd y gwaith ar yr epistolau a Llyfr y Datguddiad gan dri ar ddeg o weinidogion. Daeth esboniad Henry yn hynod o boblogaidd ac erbyn 1855 bu 25 argraffiad o'r gwaith. Bu'r esboniad hwn yn ddylanwad mawr ar genedlaethau o Gristnogion ac mae'n amlwg fod yr esboniwr Cymraeg James Hughes wedi pwyso'n drwm ar weithiau Henry wrth baratoi ei esboniadau ardderchog ef. Cyhoeddodd Henry hefyd ddeg ar hugain o gyfrolau eraill yn ymwneud â chrefydd deuluol a hyfforddi ieuenctid. Ei gyhoeddiad mwyaf dadleuol oedd un o'i weithiau cynharaf sef *Nature of Schism* (1689). Ymatebodd yr Henadur Thomas Wilcocks ac eraill i hwn. Ymhlith ei gyhoeddiadau eraill yr oedd *Discourse Concerning Meekness* (1699) a'r *Scripture Catechism* (1703).

Bu farw ar 22 Mehefin 1714 yng nghartref y Parch. Joseph Mottershead, Nantwich, o ganlyniad i godwm oddi ar ei geffyl tra oedd ar ymweliad â Chaer. Claddwyd ei gorff yng nghangell eglwys Holy Trinity yng Nghaer.